# Ein hadroddiad newydd yn datgelu effaith argyfwng COVID-19 ar dreftadaeth

27/05/2021



Boundary Way allotments, Wolverhampton

Mae'r adroddiad yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar sut yr effeithiwyd ar dreftadaeth gan argyfwng coronafeirws (COVID-19) dros y flwyddyn ddiwethaf a'r heriau y mae'r sector yn dal i'w hwynebu.

Comisiynwyd Renaisi gennym i ddarganfod sut y defnyddiodd sefydliadau treftadaeth ledled y DU ein cyllid brys, a gyflwynwyd yn gyflym o fis Ebrill y llynedd.

Mae'r adroddiad yn datgelu'r effaith gadarnhaol a gafodd y Gronfa Argyfwng Treftadaeth ar y sector, wrth i ni ddosbarthu £49,829,600 i 961 o sefydliadau treftadaeth i'w helpu i oroesi, adfer, arloesi ac ailagor.?




Amcangyfrif o effaith grant y Gronfa Argyfwng Treftadaeth: Cefnogwyd mwy na 2,400 o rolau cyfwerth ag amser llawn yn uniongyrchol. Daeth dros 1,400 o staff yn ôl o ffyrlo. Cefnogwyd dros 14,700 o rolau gwirfoddolwyr yn uniongyrchol.

## Yr hyn a ddysgon ni

Canfu ein harolwg ymateb cyflym ein hunain fod 98% o sefydliadau treftadaeth wedi cael eu effeithio o fewn tair wythnos gyntaf y pandemig. Datblygwyd y Gronfa Argyfwng Treftadaeth i helpu'r sector i addasu i'r pwysau annisgwyl hynny.

Mae'r adroddiad diweddaraf hwn yn **dangos mai effaith fwyaf ein grantiau oedd economaidd,** gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio o leiaf rhywfaint o'u cyllid brys ar gyfer **costau staff a gorbenion** megis cynnal a chadw adeiladau a biliau cyfleustodau.

O ganlyniad i'r pandemig, profodd safleoedd tirwedd a natur niferoedd uchel o ymwelwyr ac roedd angen mwy o staff arnynt i'w cynnal a'u cadw. Roedd Ymddiriedolaeth Treftadaeth Mourne yn Sir Down yn ei chael hi'n anodd pan oedd nifer yr ymwelwyr yn cynyddu'n aruthrol, gan arwain at broblemau fel taflu sbwriel, tanau gwyllt a difrod i lwybrau troed. Roedd grant eu Cronfa Argyfwng Treftadaeth yn cefnogi costau staff a phrynu deunyddiau, ac offer i ddod â gwirfoddolwyr yn ôl yn ddiogel.



Gwirfoddolwyr treftadaeth Mourne

Dywedodd dros ddwy ran o dair o'r ymatebwyr eu bod yn gwario o leiaf rhywfaint o'u grant ar fesurau ymbellhau cymdeithasol. Helpodd hyn lawer o sefydliadau treftadaeth i ailagor yn ddiogel, a gwirfoddolwyr i ddychwelyd i'w rolau.

Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddynt a chyflwyno cyfyngiadau symud olynol, gweithiodd mwy o sefydliadau gyda ni i ddefnyddio eu grant i arloesi eu model busnes, yn bennaf drwy gynyddu eu gallu digidol.

Creodd Boundary Way, sefydliad rhandiroedd yn Wolverhampton, weithdai a fideos ar-lein a helpodd eu prosiect i gyrraedd cynulleidfaoedd ymhell y tu hwnt i'r gymuned leol.

Defnyddiodd St-Martin-in-the-Fields yn Sgwâr Trafalgar, Llundain, eu grant i gyflwyno cyngherddau ar-lein, gan gadw eu cantorion yn gyflogedig a gwella sgiliau digidol y sefydliad. Roedd y cyngherddau'n darparu adloniant i aelodau presennol y gynulleidfa a oedd yn gwarchod eu hunain, ac yn denu cynulleidfa ddigidol newydd gyfan wrth i bobl wylio o bob cwr o'r byd.


Cyngerdd yn St-Martin-in-the-Fields, Llundain

> "Mae'r adroddiad yma'n rhoi cipolwg allweddol ar sut yr effeithiwyd ar dreftadaeth yn ogystal â sut y gallwn ni fel corff ariannu barhau i'w helpu i arloesi ac addasu wrth symud ymlaen."
>
> *Ros Kerslake, Prif Weithredwr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

## Adeiladu'n ôl yn well

Dywedodd Ros Kerslake, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Ym mis Mawrth 2020, roedd treftadaeth y DU yn wynebu ei bygythiad mwyaf difrifol ers yr Ail Ryfel Byd. Yr wyf yn falch o ba mor gyflym y mae ein staff wedi symbylu i gael arian allan o'r drws yn gyflym, ac yr wyf yn hyderus bod ein camau cyflym nid yn unig wedi helpu treftadaeth i oroesi'r flwyddyn ond hefyd wedi helpu i wneud sefydliadau'n fwy gwydn ar gyfer y dyfodol.

"Mae'r adroddiad yma'n rhoi cipolwg allweddol ar sut yr effeithiwyd ar dreftadaeth yn ogystal â sut y gallwn ni fel corff ariannu barhau i'w helpu i arloesi ac addasu wrth symud ymlaen."

Mae'r adroddiad yn dangos bod sefydliadau, ym mis Ionawr 2021, yn dal i wynebu heriau, ond mae hefyd yn nodi cyfleoedd i sefydliadau adeiladu'n ôl yn well. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut y gallant **ddod yn fwy cynhwysol** a chadw i fyny â newidiadau cymdeithasol ehangach, megis **cyfleoedd digidol** a **chydnabod pwysigrwydd mannau gwyrdd i iechyd a llesian**t.

## Darllen pellach

Yn ogystal ag archwilio'r cymorth ariannol a ddarperir drwy ein grantiau Cronfa Argyfwng Treftadaeth, mae'r adroddiad hefyd yn ystyried ein:


- dull hyblyg o ymdrin â phrosiectau sy'n cyflawni
- cynnydd mewn grantiau
- Cofrestr Cymorth ymgynghorol y Gwasanaethau Cymorth (ROSS)

Darllenwch yr adroddiad llawn i ddarganfod mwy o fanylion am yr heriau a'r cyfleoedd a gyflwynir gan y pandemig, galw'r sector am gymorth ariannol ac ad-ariannol, a sut y gellir bwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd o weithio'n gyflym.

## Ein cefnogaeth i'r sector

Ochr yn ochr â'r Gronfa Argyfwng Treftadaeth ? a wnaed yn bosibl diolch i arian a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol ?, gwnaethom hefyd ddosbarthu cyllid brys ac adfer ar ran y llywodraeth, drwy'r Gronfa Adfer Diwylliant ar gyfer Treftadaeth (o fis Gorffennaf 2020) a'r Gronfa Her Adfer Gwyrdd (o fis Medi 2020).

Ailddechreuodd Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn llawn ym mis Chwefror 2021. Wrth i'r pandemig barhau i effeithio ar gynifer o agweddau ar ein bywydau, rydym yn blaenoriaethu prosiectau sy'n dangos gwerth treftadaeth i'n bywyd cenedlaethol ac sy'n cefnogi economïau, lleoedd a chymunedau lleol.




## ddordeb hefyd mewn ...



**i cannoedd o sefydliadau ledled y DU**

## More than £9million Culture Recovery Fund grants awarded in second round



Cody Dock

## Nearly £40million awarded to green regeneration projects in England